



Cardiff
Metropolitan
University

Prifysgol
Metropolitan
Caerdydd

BWRSARIAETH MYFYRWYR SY'N GADAEL GOFAL **A MYFYRWYR SYDD WEDI YMDDIEITHRIO**

Telerau ac Amodau 2023-24

Mae'r pecyn cymorth hwn wedi'i gynllunio ar gyfer **pobl sy'n gadael gofal a phobl ifanc sydd wedi ymddieithrio oddi wrth eu rhieni**, y mae eu preswylfa barhaol yn y Deyrnas Unedig, ac sy'n fyfyrwyr 'Cartref' at ddibenion talu ffioedd.

Byddwn yn trafod y cymorth a allai fod ar gael i chi os byddwch yn [datgan ar eich cais UCAS bod gennych brofiad gofal](#) neu mae croeso i chi gysylltu â ni os ydych chi'n ymgeisio fel myfyriwr sydd wedi ymddieithrio.

[Mae UCAS wedi rhoi tri rheswm pam y dylech dicio'r blwch profiad gofal.](#)

Os nad ydych yn datgan eich profiad gofal ar eich cais UCAS ond yn credu y byddech yn gymwys ar gyfer y fwrsariaeth hon, mae croeso i chi gysylltu ag ecook@cardiffmet.ac.uk i drafod y cymorth a allai fod ar gael i chi.

Gwerth y fwrsariaeth hon yw o hyd at **£1,000 y flwyddyn academiaidd** (ar yr amod bod y telerau ac amodau isod yn cael eu bodloni).

Bydd myfywrwyr cymwys hefyd yn cael y Wobr Bywyd Astudio (gweler telerau ac amodau llawn Bywyd Astudio ar gyfer parhau i fod yn gymwys ar gyfer y dyfarniad hwn).

1. MEINI PRAWF CYMHWYSEDD

Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer y pecyn cymorth, rhaid i chi fod naill ai'n:

Ymadawyr Gofal: Diffinnir person sy'n gadael gofal fel person **25 oed neu iau**, sydd wedi **derbyn gofal gan awdurdod lleol am o leiaf 13 wythnos ers 14 oed**.

Os gwnaethoch ddatgan bod gennych brofiad gofal ar eich cais UCAS, bydd rhywun o'n tîm mewn cysylltiad cyn cofrestru. Os nad ydych yn datgan eich profiad gofal ar eich cais UCAS ond yn credu y byddech yn gymwys ar gyfer y fwrsariaeth hon, cysylltwch â ni.

Myfyriwr sydd wedi ymddieithrio: Os ydych yn **astudio heb gefnogaeth rhwydwaith** teuluol a'ch bod wedi ymddieithrio'n **ddiymwad oddi wrth eich rhieni**. Nid oes gan fyfyrwyr sydd wedi'u **had-drefnu unrhyw berthynas gyfathrebol â'u rhienimabwysiadol** neu fiolegol. I fod yn gymwys ar gyfer y fwrsariaeth hon fel myfyriwr sydd wedi ymddieithrio, rhaid i chi fodloni'r diffiniad hwn o fod yn fyfyrwr **sydd wedi ymddieithrio erbyn dyddiad dechrau eich cwrs**.

Cysylltwch â ni os ydych chi'n ymgeisio fel myfyriwr sydd wedi ymddieithrio.

Os nad ydych yn siŵr a ydych yn bodloni'r un o'r diffiniadau uchod o fyfyrwr sy'n gadael gofal neu wedi ymddieithrio, cysylltwch â ecook@cardiffmet.ac.uk i holi eich cymhwysedd.

Yn y naill amgylchiad neu'r llall, mae angen i chi hefyd fodloni'r meini prawf canlynol:

- a. fod yn **breswlydd parhaol yn y DU**
- b. fod yn **fyfyrwr 'Cartref' (at ddibenion Ffioedd Dysgu)**

- c. fod yn fyfyrwr newydd ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd, yn gwneud cais drwy UCAS, ac yn dechrau ar gwrs israddedig llawn amser ar lefel blwyddyn un neu lefel sylfaen sy'n dechrau yn 2023. (Efallai y byddwch hefyd yn gymwys os byddwch yn dechrau ar eich ail neu drydedd flwyddyn o gwrs masnachfaint Prifysgol Metropolitan Caerdydd (e.e. HND neu gwrs gradd Sylfaen mewn darparwr arall), gan ei fod yn cynrychioli eich tro cyntaf yn bresennol ar gampws Prifysgol Metropolitan Caerdydd). Cysylltwch â ni os yw hyn yn berthnasol i chi.
- d. fod yn **25 oed neu'n iau ar ddechrau pob blwyddyn academiaidd (1 Medi)**
- e. gallu **darparu manylion eich gweithiwr cymorth neu weithiwr proffesiynol sy'n eich adnabod ac sydd wedi bod yn ymwybodol o'ch sefyllfa**
- f. Os ydych chi'n fyfyrwr sydd wedi ymddieithrio:
 - o Byddwch wedi cael eich ymddieithrio'n ddiymwad oddi wrth eich rhieni cyn dechrau ar eich cwrs
- g. Os ydych yn berson sy'n gadael gofal, bydd angen i chi:
 - o datgan eich bod yn gadael gofal ar eich cais UCAS
 - o wedi bod mewn gofal ers yn 14 oed am o leiaf 13 wythnos

2. DYRANIADAU

- **Mae nifer y dyfarniadau'n cael eu cymhathu ac ynamodol ar argaeledd y gyllideb.**
- **Y broses ymgeisio**
- a) Nid oes **ffurflen gais**.
- b) **Ymadawyr Gofal**, unwaith i chi nodi eich bod yn '**ymadawyr gofal**'/ **sydd â phrofiad gofal ar ffurflen, gais UCAS**, bydd eich manylion yn cael eu codi gan y Tîm Derbyn a'u trosglwyddo i Emma Cook, cyswllt/mentor staff penodedig. Bydd Emma yn cysylltu â chi i roi cyngor ar y pecyn cymorth y gallech fod â hawl iddo, a'r meini prawf cymhwysedd.
- c) **Myfyrwr sydd wedi Ymddieithrio**, cysylltwch ag Emma Cook (cyswllt/mentor staff penodedig). Bydd Emma yn cysylltu â chi i roi cyngor ar y pecyn cymorth y gallech fod â hawl iddo, a'r meini prawf cymhwysedd.
- d) Bydd angen i chi **ddarparu tystiolaeth eich bod yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd uchod.**
- e) **Rhoddir dyfarniadau fesul achos, yn ôl disgrisiwn y Brifysgol.**
- f) **Os byddwch yn llwyddiannus, cysylltir â chi gyda chadarnhad o'ch pecyndyfarnu.**
- g) Byddwch yn ymwybodol y **bydd eich manylion yn cael eu rhannu gyda'r Gwasanaethau Llety a Bwrsariaethau ac Ysgoloriaethau**, er mwyn sicrhau eich bod yn derbyn yr holl gymorth y mae gennych hawl iddo.

3. TALIADAU DYFARNU

- a) Cyfanswm y dyfarniad fesul blwyddyn academiaidd yw o hyd at **£1,000**.
- b) **Telir y dyfarniad mewn dau randaliad** (tua mis Rhagfyr a mis Mawrth), **yn amodol ar gadarnhad o bresenoldeb a chyfarfod bob tymor gydag Emma Cook** (i drafod trefniadau ymgysylltu a thalu).
- c) Os oes problemau o ran ymgysylltu a phresenoldeb, **efallai y cewch eich cyfeirio at dîm cadw'r brifysgol am ragor o gymorth.**

4. CYFYNGIADAU

- a) Rhaid i chi fod **wedi cofrestru** ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd i fod â hawl i'r fwrsariaeth.
- b) **Mae talu'r dyfarniad yn y blynyddoedd hynny yn dilyn y flwyddyn bresenoldeb gychwynnol yn amodol ar ddilyniant llwyddiannus i'r flwyddyn astudio rifiadol nesaf** (e.e. o 0FT09 i 1FT09). Yn ôl disgrisiwn y

Brifysgol, bydd yn rhaid dyfarnu am y blynyddoedd dilynol os yw myfyriwr yn ailsefyll, a bydd amgylchiadau lliniarol yn cael eu hystyried.

- c) Os ydych yn **ailsefyll a pheidio â mynychu'r Brifysgol** yn y flwyddyn academaidd honno, ni fydd gennych hawl i'r Fwrsariaeth Myfyrwyr sy'n Gadael Gofal ac Wedi Ymddieithrio.
- d) Ni fydd myfyrwyr sydd wedi'u **mabwysiadu** yn gymwys ar gyfer y fwrsariaeth.
- e) Os byddwch yn **tynnu'n ôl** o'ch cwrs, bydd pob elfen o'r fwrsariaeth yn dod i ben ar unwaith heb unrhyw bosibilrwydd o adfer yn y dyfodol.
- f) Os byddwch yn **gohirio** eich astudiaethau, bydd holl elfennau'r fwrsariaeth yn dod i ben ar unwaith. Bydd eich cymhwysedd i'r fwrsariaeth yn cael ei adolygu wrth ailgofrestru i'ch cwrs.
- g) Os byddwch yn **gadael eich gradd**, israddedig, byddwch yn colli eich hawl i'r fwrsariaeth. Bydd eich cymhwysedd i'r fwrsariaeth yn cael ei adolygu pe byddwch yn ailgofrestru yn y Brifysgol i gwblhau eich gradd israddedig.
- h) Dim ond ar gyfer un radd israddedig ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd y caniateir i chi dderbyn y fwrsariaeth.**
 - i) Ni waeth pa flwyddyn y byddwch yn derbyn y fwrsariaeth am y tro cyntaf, **bydd disgwyl i chi gadw at delerau ac amodau'r flwyddyn**, academaidd gyfredol, a dylech ymgyswngiwrddo â'r telerau ac amodau o flwyddyn i flwyddyn.
 - j) Myfyrwyr sydd wedi ymddieithrio: **os bydd eich amgylchiadau'n newid** (h.y. rydych yn cysoni â'ch rhieni), **rhowch wybod i ni gan y gallai hyn effeithio ar eich cymhwysedd.**
 - k) Dim ond os ydych wedi rhoi caniatâd y bydd eich **gwybodaeth** bersonol yn cael ei rhannu gyda'ch Tîm Gwasanaethau Cymdeithasol.
 - l) Nid yw'r fwrsariaeth ar gael os ydych yn astudio mewn **coleg breiniol**. Cysylltwch â'ch coleg lleol i drafod bwrsariaethau ac ysgoloriaethau sydd ar gael.

SUT RYDYM YN STORIO EICH DATA

Hysbysiad Preifatrwydd Prifysgol Metropolitan Caerdydd ar gyfer Talu Ymadawyr Gofal a Bwrsariaeth Myfyrwyr Sydd wedi Ymddieithrio

Prifysgol Metropolitan Caerdydd yw'r Rheolwr Data ac mae wedi ymrwymo i ddiogelu hawliau unigolion yn unol â Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018 (DPA18). Mae Datganiad Preifatrwydd y Brifysgol ar gael yma: <http://www.cardiffmet.ac.uk/about/Pages/privacy-statement.aspx>

Gellir cysylltu â Swyddog Gwybodaeth a Chydymffurfiaeth Data Prifysgol Metropolitan Caerdydd drwy'r llwybrau canlynol (os oes gennych unrhyw ymholiadau pellach ynghylch prosesu eich data):

Ffôn: 02920 20 5758.

E-bost: SWeaver@cardiffmet.ac.uk a/neu dataprotection@cardiffmet.ac.uk.

Mae'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn yn esbonio: Sut y bydd y Brifysgol yn defnyddio'ch data personol i sicrhau bod eich taliadau Bwrsariaeth Myfyrwyr sy'n Gadael Gofal ac wedi'u Ymddieithrio yn cael eu talu'n ddiogel i'ch cyfrif banc; a'ch hawliau o ran prosesu eich data at y diben hwnnw.

Bydd y Brifysgol yn prosesu'r data personol canlynol: Eich rhif myfyriwr, eich enw, cyfeiriad e-bost, dogfennau ategol sy'n ymwneud â statws Myfyrwyr sy'n Gadael Gofal/Myfyrwyr sydd wedi'u Ymddieithrio a manylion cyfrif banc (os telir gan BACS), at ddibenion talu'r fwrsariaeth hon yn unig.

Mae'r Brifysgol yn gyfreithlon wrth brosesu'r data hwn oherwydd mae'n angenrheidiol er mwyn cyflawni contract gyda chi (o dan Erthygl 6(1)(b) o'r GDPR). Yn yr achos hwn, mae'n angenrheidiol er mwyn cefnogi derbyn cymorth ariannol drwy Fwrsariaeth Myfyrwyr Sy'n Gadael Gofal ac wedi'u Ymddieithrio.

Ni fydd gan unrhyw drydydd parti fynediad at eich data personol oni bai bod y gyfraith yn caniatáu iddynt wneud hynny.

Mae'r cyfnod cadw ar gyfer eich data hyd at uchafswm o 7 mlynedd. Yna caiff y data ei ddinistrio'n ddiogel yn unol â [Pholisi Rheoli Cofnodion](#) Prifysgol Metropolitan Caerdydd.

O dan Erthygl 6(1)(b) o'r GDPR, mae sawl hawl yn cael eu rhoi i chi mewn perthynas â sut y caiff eich data ei brosesu. Mae gennych yr hawl i:

- Yr hawl i gael mynediad.
- Yr hawl i gywiro.
- Yr hawl i ddileu.
- Yr hawl i gludo data.

I gael rhagor o wybodaeth am hawliau unigol, ewch i: <https://ico.org.uk/for-organisations/guide-to-data-protection/guide-to-the-general-data-protection-regulation-gdpr/individual-rights/>.

Dylid gwneud unrhyw geisiadau neu wrthwynebiadau yn ysgrifenedig i Swyddog Gwybodaeth a Chydymffurfiaeth Data'r Brifysgol: -

Sean Weaver
Prifysgol Metropolitan Caerdydd
Rhodfa'r Gorllewin
Llandaf
Caerdydd
CF5 2YB

Mae gan Brifysgol Metropolitan Caerdydd Bolisi Diogelu Data, sydd i'w weld [yma](#).

Os ydych yn dymuno gwneud cwyn am y ffordd y mae eich data personol wedi'i brosesu, gallwch ddod o hyd i fanylion am sut i wneud hynny [yma](#).

Os nad yw'r broses hon yn datrys eich mater, neu os ydych yn dymuno mynd â'ch cwyn ymhellach, mae gennych yr hawl i gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth. Y manylion cyswllt yw:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth – Cymru
2il Lawr, Tŷ Churchill
Ffordd Churchill
Caerdydd
CF10 2HH

0330 414 6421

www.ico.org.uk